

CYR HERALD Cymraeg

PARHAU Â'R TRADDODIAD

Yr Herald Cymraeg, Bryn Eirias, Colwyn Bay, LL29 8BF e-bost: heraldcymraeg@reachplc.com

GAN ERYL CRUMP

BYDD arddangosfa arbennig iawn sy'n talu gwrogaeth i'r artist, addysgwr, awdur a'r heddychwyr Jonah Jones yn ganolbwynt lansiad arddangosfeydd 2019 Plas Glyn-y-Weddw.

Ochr yn ochr â'r dathliad canmlwyddol bydd Cyswllt yn arddangosfa gan ddetholiad o artistiaid sydd a'u gwaith yn ymblethu gyda bywyd a gwaith Jonah mewn rhyw fodd.

Bydd yr arddangosfeydd hwn yn canolbwyntio ar wrogaeth i Ben Llyn. Bydd brawd a chwaer, Owain a Lea Sautin, o Lanbedrog yn wreiddiol, yn cyd-ddangos gyda'i gilydd am y tro cyntaf yn Sautin + Sautin tra bydd Mapio Llyn yn arddangosfa unigol gyntaf i Ruth Gibson, artist o'r Amwythig.

Yn ddyn rhyfeddol daeth Jonah Jones yn adnabyddus mewn sawl maes.

Wedi'i eni a'i fagu yng ngogledd ddwyrain Lloegr roedd ganddo wreiddiau Cymreig a dewisodd ymgartrefu yng Nghymru ar ddiwedd yr 1940au. Daeth i Lanystumdwy i weithio yng Ngwasg Caseg gyda'r artist John Petts cyn mynd i weithdy'r diweddar Eric Gill i ddysgu'r dechneg o lythrennu ar garreg.

Sefydlodd stiwdio yn Eifionydd a dechreuodd wneud bywoliaeth o'i waith celf. Roedd hefyd yn awdur ac yn y cyfnod yma cyhoeddodd ddwy nofel, cyfres o ysgrifau, bywgraffiad o'i gyfaill Clough William-Ellis a llyfr ar lynnoedd gogledd Cymru.

Roedd ganddo ddiddordeb mawr mewn addysg celf yn ogystal, bu'n asesydd allanol i lawer o brif golegau celf Lloegr cyn treulio pedair blynedd (1974-78) yn Gyfarwyddwr Coleg Cenedlaethol Celf a Dylunio Iwerddon yn Nulyn.

Bydd enghraifft wych o'i waith gwydr lliw yn yr arddangosfa mewn dwy banel ffenestr o Eglwys Gatholig Morfa Nefyn sydd bellach wedi ei chau. Hefyd bydd nifer fawr o ddarnau cerfluniol, paentiadau dyfrlliw a chasgliad helaeth o'i ddarnau caligraffi hardd ar bapur.

Mae llawer o'i ddarnau caligraffi yn cyfuno barddoniaeth a delweddau ac wedi'i creu ym mhymtheg mlynedd ola ei fywyd ar ôl symud i fyw i Gaerdydd, ei iechyd ddim yn ddigon da mwyach iddo greu gwaith cerfluniol.


Dyweddodd cyfarwyddwr yr Oriel, Gwyn Jones: "Pleser ac anrhydedd fu cyd-weithio gyda teulu Jonah Jones i ddod a'r arddangosfa at ei gilydd.

"Llwyddwyd i fenthycu darnau o bob cwr o Gymru a Lloegr ac mae eu harddangos yma yn cynnig cyfle unigryw i'r cyhoedd fwynhau a gwerthfawrogi casgliad gwych o'i waith dan yr un to.

"Bydd cyhoeddiad arbennig yn cael

Dathliad canmlwyddol o waith Jonah Jones ym Mhlas Glyn-y-Weddw

■ Jonah Jones yn ei weithdy



■ Y Bont gan
Jonah Jones (1967)

ei lansiio sy'n ganllaw i'r arddangosfa ac hefyd yn olrhain ei fywyd trwy ei waith celf.

"Bydd fersiwn nifer-cyfyngedig clawr meddal o'i lyfr Gregynog Diaries, yn olrhain ei gyfnod ar breswyliaid yn Ngregynog ar werth yn yr arddangosfa yn ogystal a phrintiadau."

Mae Cyswllt yn ddetholiad o

artistiaid yn gweithio mewn sawl cyfrwng.

Roedd rhai yn gyfeillion megis, Claire Langdown a David Nash tra bu Meic Watts yn rhannu stiwdio gyda Jonah am rai blynyddoedd, yn cael ysbrydoliaeth ganddo ac yntau yn dechrau ar yrfa fel cerflunydd yn gweithio gyda charreg. Cerflunydd ifanc arall werthfawrogodd ei

gefnogaeth oedd Howard Bowcott a bu'r tri, Jonah, Meic a Howard yn dangos gyda'i gilydd fel y 'Moelwyn Group'.

Caiff y cyfryngau eraill oedd Jonah yn gweithio ynddynt eu cynrychioli gan waith gwyr, llythrennu a dyfrlliw tra telir gwrogaeth i'w lyfr ar Lynnoedd Gogledd Cymru yng ngwaith Aled Prichard-Jones a

Vivienne Rickman Poole.

"Mae'r artist aml-gyfrwng Richard Higlett wedi dehol ymateb yn uniogyrchol i rai o weithiau Jonah tra daw gwaith Simon Callery o'i gyfnod diweddar ar Ysgoloriaeth yn yr Ysgol Brydeinig yn Rhufain lle buodd Jonah yn aelod Bwrdd.

Mae Owain a Lea Sautin wedi ymgartrefu yn Nghaerdydd erbyn hyn ond mae gwaith y ddau wedi'i wreiddio yn ddwfn yn nhir Llyn.

Daw ysbrydoliaeth Owain o'r tirlun a'r golygfeydd, yn arbennig y traethau a'r cilfachau hudol sydd ar y penrhyn. Wedi'u cofnodi gyda chamera bydd yn ymdrin â'r delweddau trwy ddefnyddio gwahanol raglenni cyfrifiadurol sy'n rhoi ryw ledrith arbennig iddynt.

Mae lleidreth yn rhan o waith Lea hefyd drwy ganolbwyntio ar straeon tylwyth teg a chwedlau lleol.

Tirlun Llyn sydd hefyd wedi mynd a bryd Ruth Gibson yn ei harddangosfa Mapio Llyn.

Mae hi'n cyfuno diddordeb mewn ffotograffiaeth a serameg i greu darnau hardd unigryw gan ddefnyddio proses sgrin-brintio i drosglwyddo delweddau tirluniol ar y clai cyn ei siapio, ei wydro a'i danio.

Mae'r arddangosfeydd ymlaen hyd Fawrth 17 gyda digwyddiadau arbennig i nodi'r agoriadur Ionawr 26.

Mae rhaglen weithgareddau drwy gyfnod yr arddangosfeydd.

■ Ceir yr holl fanylion ar wefan yr Oriel - oriel.org.uk